Cyllid & Tollau EM

# Dyledion sy'n ddyledus gan yr ymadawedig

Atodlen IHT419

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon os ydych am ddidynnu unrhyw un o'r canlynol o werth yr ystâd ar ffurflen IHT400:

- arian a wariwyd ar ran yr ymadawedig ac sydd heb ei ad-dalu
- benthyciadau neu orddrafftiau
- rhwymedigaethau mewn perthynas â pholisi aswiriant bywyd pan na chaiff y swm a aswiriwyd ei adlewyrchu'n llawn yn yr IHT400
- dyledion a warantwyd gan yr ymadawedig ar ran rhywun arall.

Dylech gynnwys y dyledion hyn ar ffurflen IHT400, ym mlwch 80 neu flwch 82, fel sy'n briodol.

Os bu farw'r ymadawedig ar, neu ar ôl, 17 Gorffennaf 2013, mae yna rai amodau sy'n rhaid eu bodloni cyn y gellir didynnu rhwymedigaeth. Mae'r amodau'n ymwneud â'r canlynol:

- at beth y defnyddiwyd yr arian a fenthycwyd
- p'un a yw'r arian yn cael ei ad-dalu o'r ystâd ai peidio

Os nad yw'r rhwymedigaeth yn bodloni'r amodau, mae'n bosibl na chaiff ei didynnu o'r ystâd.

Ni ellir caniatáu'r didyniad os yw'r canlynol yn wir:

- benthycwyd yr arian i gaffael, cynnal a chadw neu wella eiddo sydd wedi'i eithrio – mae hyn yn gymwys p'un a gaiff y ddyled ei had-dalu ai peidio
- ni chaiff yr arian ei ad-dalu o'r ystâd.

Mae yna eithriadau i hyn:

- os yw'r eiddo sydd wedi'i eithrio wedi'i werthu ers hynny ac mae'r arian a gafwyd yn agored i dreth, neu os yw'r eiddo sydd wedi'i eithrio wedi dod yn agored i dreth
- mae rheswm masnachol go iawn dros beidio ag ad-dalu'r ddyled, ac nid yw peidio ag ad-dalu'r ddyled yn arwain at fantais treth.

Os bydd unrhyw un o'r eithriadau hyn yn gymwys, rhowch wybod pam eich bod yn credu hynny ar y ffurflen hon a hynny ym mlwch 6 ar dudalen 4, neu yn y blychau gwybodaeth ychwanegol ar dudalennau 15 ac 16 o'r IHT400.

Os defnyddiwyd rhwymedigaeth y gellir ei chaniatáu fel didyniad, i gaffael, gwella neu gynnal a chadw eiddo sy'n gymwys am y canlynol:

- Rhyddhad Amaethyddol
- Rhyddhad Busnes
- Rhyddhad Coetiroedd

a chododd y rhwymedigaeth honno ar, neu ar ôl, 6 Ebrill 2013, mae'n rhaid i chi ddidynnu'r rhwymedigaeth o'r eiddo dan sylw cyn cyfrifo swm y rhyddhad sy'n ddyledus.

Mae rhagor o wybodaeth am rwymedigaethau ar gael ar dudalen 49 y nodiadau IHT400.

**Enw'r ymadawedig**

**Dyddiad y farwolaeth** DD MM BBBB

**Cyfeirnod IHT (os yn hysbys)**

## Rhoddion i, a benthyciadau gan, yr un person

Mewn rhai achosion, mae rheolau arbennig yn berthnasol pan fo'r ymadawedig wedi benthyg arian oddi wrth rywun ac wedi gwneud rhodd i'r un person. Fel arfer, ni chaiff y mathau hyn o ddyledion sydd gan yr ymadawedig eu caniatáu fel didyniadau at ddibenion Treth Etifeddiant.

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch y Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900**.

## Help

I gael gwybodaeth neu gymorth, neu i gael copi arall o'r ffurflen hon:

- ewch i gov.uk/cymraeg
- ffoniwch y Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900**

## Arian a wariwyd ar ran yr ymadawedig

1 **A wnaeth unrhyw berson wario arian ar ran yr ymadawedig, sydd yn cael ei hawlio fel didyniad o'r ystâd erbyn hyn?**
Er enghraifft, talu biliau'r cartref.

Naddo ☐ Do ☐ Os atebwch Do, rhowch y manylion canlynol am yr arian a wariwyd

| Enw'r person a wariodd yr arian | Perthynas i'r ymadawedig | Ar beth y gwariwyd yr arian? | Eglurwch pam na chafodd arian yr ymadawedig ei hun ei ddefnyddio | Eglurwch pam na ad-dalwyd yr arian tra'r oedd yr ymadawedig yn fyw | Swm a wariwyd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

## Benthyciadau a rhwymedigaethau

2 **A oedd gan yr ymadawedig unrhyw fenthyciadau oedd yn ddyledus, gan gynnwys benthyciadau gan ffrindiau agos a pherthnasau?**

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Os atebwch Oedd, rhowch yr wybodaeth ganlynol am fenthyciadau a rhwymedigaethau. Rhowch gopïau o unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o'r benthyciad(au)

| Enw'r benthyciwr | Perthynas i'r ymadawedig | Dyddiad y benthyciad DD MM BBBB | Nodwch ddiben y benthyciad a ble gaiff yr arian ei adlewyrchu yng ngwerth yr ystâd | A warantwyd y benthyciad ar unrhyw eiddo? | Swm gwreiddiol y benthyciad £ | Cyfanswm sy'n weddill ar ddyddiad y farwolaeth £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

## Rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â pholisi yswiriant

**3** **A oes unrhyw rwymedigaethau a hawliwyd sy'n gysylltiedig â pholisi aswiriant bywyd a/neu fond buddsoddi, lle nad yw gwerth y polisi neu'r bond wedi'i adlewyrchu'n llawn mewn man arall yn yr IHT400?**

Nac oes ☐ Oes ☐ Os atebwch Oes, rhowch yr wybodaeth ganlynol. Mae'n rhaid i chi hefyd roi copi o ddogfennau'r polisi ac unrhyw ddogfennau ymddiriedolaeth neu fenthyciad perthnasol

| Enw'r cwmni yswiriant | Swm sy'n ddyledus £ | Swm a aswiriwyd, a ddangosir yn ystâd yr ymadawedig (os nad oes dim, ysgrifenwch 'Dim') £ |
|---|---|---|
| | | |

## Dyledion a warantwyd

**4** **A wnaeth yr ymadawedig warantu unrhyw ddyledion ar ran person arall?**

Naddo ☐ Do ☐ Os atebwch Do, rhowch y manylion canlynol. Rhowch gopi o unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig

| Enw'r person yr oedd ei ddyledion wedi'u gwarantu | Perthynas i'r ymadawedig | A alwyd ar yr ymadawedig i ad-dalu'r benthyciad? | Os atebwch Naddo, eglurwch pam eich bod o'r farn y dylid didynnu'r benthyciad o'r ystâd | Swm y ddyled a warantwyd £ |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

## Rhoddion i, a benthyciadau gan, yr un person

5 **A wnaeth yr ymadawedig roi rhodd i rywun ar ôl 18 Mawrth 1986, a benthyg arian gan yr un person ar unrhyw adeg ar ôl rhoi'r rhodd?**

Naddo ☐ Do ☐ Os atebwch Do, rhowch y manylion canlynol.

**Rhoddion** Os yw'r rhodd eisoes wedi'i ddisgrifio ar ffurflen IHT403, 'Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth', bydd ond angen i chi roi digon o wybodaeth i ni i allu adnabod y rhodd dan sylw

| Dyddiad y rhodd | Manylion y person y rhoddwyd y rhodd iddo | Disgrifiad o'r asedion sy'n rhan o'r rhodd | Gwerth yr asedion ar ddyddiad rhoi'r rhodd £ |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Benthyciadau** Rhowch gopïau o unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o'r benthyciad(au). Os yw'r benthyciad eisoes wedi'i ddisgrifio ym mlwch 2 o'r ffurflen hon, bydd ond angen i chi roi digon o wybodaeth i ni i allu adnabod y rhodd dan sylw

| Dyddiad y benthyciad | Swm y benthyciad £ | Symiau a dyddiadau unrhyw daliadau | Ar gyfer beth y defnyddiodd yr ymadawedig yr arian, a ble gaiff yr arian ei adlewyrchu yn yr ystâd? |
|---|---|---|---|
| | | | |

## Gwybodaeth ychwanegol

6 **Rhowch unrhyw wybodaeth arall i ni sydd angen i ni wybod amdani yn eich barn chi**

| |
|---|
| |